Llywodraeth Cymru
Welsh Government




# Cyflogadwyedd, Sgiliau a Gyrfaoedd yn y Sector Manwerthu

Mae rhoi'r sgiliau sydd eu hangen ar newydd-ddyfodiaid i fanteisio ar gyfleoedd cyflogaeth o fewn y sector manwerthu yn bwysig a bydd yn helpu i fynd i'r afael â phroblemau recriwtio sy'n wynebu'r sector.

Mae darparu cyfleoedd parhaus i ddysgu a datblygu yn allweddol i fynd i'r afael â chadw staff.

Mae'r sector manwerthu yn cynnig amrywiaeth o lwybrau gyrfa y tu hwnt i lawr y siop, gan gynnwys rolau mewn prynu, dosbarthu, rheoli a logisteg.

Mae **Cydweithio er budd manwerthu – Cynllun Gweithredu Fforwm Manwerthu Cymru** yn amlinellu camau i adeiladu sector manwerthu llwyddiannus, arloesol, cynaliadwy a gwydn sy'n cynnig gwaith teg, diogel a gwerth chweil.

Mae'r Cynllun yn cynnwys camau sy'n ymwneud â chyflogadwyedd, gyrfaoedd a datblygu sgiliau gyda'r nod o:

> **“Gefnogi mwy o bobl i ymuno â'r sector manwerthu; cefnogi mwy o weithwyr manwerthu i ddatblygu eu sgiliau; hyrwyddo'r cyfleoedd a'r llwybrau dilyniant sydd ar gael yn y sector; ac i nodi bylchau yn y ddarpariaeth.”**

Mae'r ddogfen hon yn rhoi trosolwg o’r amrywiol raglenni, gwasanaethau a chymorth sydd ar gael i'r sector manwerthu a'i weithwyr yng Nghymru.



## Rhaglenni a Gwasanaethau Llywodraeth Cymru

# Prentisiaethau

**Mae prentisiaethau'n cyfuno hyfforddiant ymarferol mewn swydd ag astudio, gan roi cyfle i'r Prentis i:**

- weithio gyda staff profiadol
- dysgu sgiliau sy'n benodol i'r swydd
- ennill cymhwyster
- ennill cyflog wrth gael amser i astudio (fel arfer un diwrnod yr wythnos).

Mae prentisiaethau'n cymryd 1 i 4 blynedd i'w cwblhau yn dibynnu ar eu lefel a gellir eu cynnig i unrhyw un dros 16 oed.

Gall recriwtio prentis helpu cyflogwyr i ehangu eu gweithlu a'u sylfaen sgiliau.

Mae cymorth ar gael tuag at gost hyfforddiant ac asesiadau.

Bydd cyflogwyr yn gweithio gyda darparwr hyfforddiant cymeradwy a fydd yn rheoli rhaglen hyfforddi ac asesu'r prentis.

**Mae fframweithiau prentisiaid sy'n berthnasol i'r sector manwerthu yn cynnwys:**

- Gweinyddu Busnes
- Pobydd
- Cigydd a Phrosesu Cig
- Gwasanaethau Glanhau a Chefnogi'r Amgylchedd
- Gwasanaethau i Gwsmeriaid
- Trydanol / Mecanyddol
- Cynnal a chadw
- Rheoli Cyfleusterau
- Gwasanaethau Ariannol
- Bwyd môr (nid gwerthu pysgod)
- Lletygarwch ac Arlwyo
- Rheoli Adnoddau Dynol
- Logisteg
- Rheoli
- Manwerthu a Warws
- Gwerthu
- Rheoli Cadwyni Cyflenwi
- Sgiliau Digidol ar gyfer Busnes (nid Defnyddwyr TG)
- Technoleg Ddigidol.

Recriwtio prentis – canllawiau i gyflogwyr I LLYW. CYMRU



# Busnes Cymru

Mae Busnes Cymru yn rhoi mynediad i entrepreneuriaid a busnesau at ystod eang o wybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i helpu ddechrau, cynnal a thyfu busnesau.

Mae Busnes Cymru yn cynnig cyfuniad o gymorth busnes ar-lein, dros y ffôn, gwybodaeth ddigidol, ac adnoddau unghyd â chyngor busnes drwy weithdai a chymorth busnes 1 i 1.

Mae Busnes Cymru yn darparu amrediad o gyngor busnes cyffredinol a chyfeirio er mwyn helpu unigolion i ddechrau busnes manwerthu newydd a chymorth i berchenogion busnes o fewn y sector manwerthu drwy gyngor arbenigol amrywiol gan gynnwys:

- Cynllunio a chynhyrchiant busnes
- Rheolaeth ariannol a mynediad at gyllid
- Effeithlonrwydd adnoddau a datgarboneiddio
- Masnach ryngwladol
- Adnoddau Dynol a sgiliau
- Cydraddoldeb, amrywiaeth a gwaith teg
- Marchnata, hyrwyddo a gwerthu ar-lein neu ystyried y safle gorau i chi.

Llinell gymorth – **03000 6 03000**
Gwefan – **www.busnescymru.llyw.cymru**



# Gyrfa Cymru

Mae Gyrfa Cymru, a'u gwasanaeth Cymru'n Gweithio, yn darparu gwybodaeth, cyngor ac arweiniad diduedd i bobl o bob oed, am gyflogadwyedd a gyrfaoedd, sydd wedi'u teilwra i anghenion ac amgylchiadau unigolyn.

Maent yn gweithio'n agos gyda sefydliadau addysgol, cyflogwyr, partneriaid a sefydliadau cymunedol i helpu pobl ifanc ac oedolion i gynyddu eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o gyfleoedd, anghenion sgiliau a'r farchnad lafur leol.

Mae ganddynt dîm o Gynghorwyr Ymgysylltu â Rhanddeiliaid sy'n gweithio'n agos gyda chyflogwyr i gefnogi gydag anghenion recriwtio ac yn cynnal digwyddiadau wedi'u teilwra ar gyfer cyflogwyr. Mae gennym hefyd dîm o gynghorwyr Ymgysylltu â Busnes sy'n cysylltu cyflogwyr ac ysgolion.

Mae gan wefan Gyrfa Cymru ystod eang o wybodaeth yn ymwneud â gyrfaoedd a swyddi mewn gwahanol sectorau, gan gynnwys y sector manwerthu. Gall unigolion ddarganfod beth mae gwahanol swyddi yn eu golygu, lefelau cyflog, oriau gwaith arferol, a'r cymwysterau, y sgiliau a'r rhinweddau sydd eu hangen.

Gall unigolion hefyd edrych ar y cyflogwyr a'r asiantaethau sy'n recriwtio yn y sector manwerthu a gweld a yw'r gofynion a ddisgwylir yn y dyfodol ar gyfer rolau unigol yn berthnasol.

**Mae arlwy gwasanaeth Gyrfa Cymru a Cymru'n Gweithio yn cynnwys:**

- Gwybodaeth, cyngor ac arweiniad gyrfaoedd
- Help i ddod o hyd i gyfleoedd gwaith
- Cymorth CV ac ymgeisio am swyddi
- Paratoi ar gyfer cyfweliad am swydd
- Cymorth i ymgeisio am gyllid
- Cyngor a hyfforddiant ar newid gyrfa
- Help i uwchsgilio a chael mynediad at hyfforddiant
- Cysylltu cyflogwyr â phobl ifanc ac oedolion
- Cyfeirio at wasanaethau cyflogadwyedd eraill
- Cymorth ar ôl colli swydd.

**Gall Gyrfa Cymru hefyd helpu pobl sy'n chwilio am noddfa drwy ddarparu mynediad at:**

- Llinell iaith er mwyn cael gwasanaeth cyfieithu yn ystod ein hapwyntiadau
- Cynghorwyr sy'n arbenigo mewn cymorth i ffoaduriaid a'r rhai sy'n chwilio am noddfa
- Trosglwyddo cymwysterau tramor i gymwysterau cyfatebol cydnabyddedig yn y DU ar gyfer y rhai sy'n gwneud cais am waith neu hyfforddiant.

**Swyddi Manwerthu a Gwasanaethau i Gwsmeriaid | Swyddi Dyfodol Cymru**

**Gyrfa Cymru | Gyrfa Cymru (llyw.cymru)**

**Gweithio gydag ysgolion | Gyrfa Cymru (llyw.cymru)**



# Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+)

Mae Cymunedau am Waith a Mwy (CfW+) yn rhaglen fentora ddwys yn y gymuned, sy'n helpu'r rhai sydd o dan yr anfantais fwyaf yn y farchnad lafur i oresgyn y rhwystrau sy'n atal pobl rhag cael cyflogaeth a'r swyddi maent yn dyheu amdanynt.

**Mae'r rhaglen yn cynnig:**

- Mentora 1 i 1 mewn cymunedau lleol
- Cronfa rwystrau i helpu i gael gwared ar rwystrau i gyflogaeth fel trafnidiaeth, gofal plant, dillad ar gyfer cyfweliad, argraffu CV
- Cronfa hyfforddi ar gyfer cyrsiau (ee. cymorth cyntaf, gwasanaeth cwsmeriaid, sgiliau TG). Mae hyn yn hyblyg iawn ac wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion
- Cefnogaeth i chwilio am swyddi
- Profiad gwaith a chyfleoedd gwirfoddoli
- Cymorth yn y gwaith (gan gynnwys grant bach) ar gyfer cyfranogwyr sy'n gadael y rhaglen ar gyfer cyflogaeth ac sydd o ganlyniad yn wynebu anawsterau o ran aros mewn gwaith.

Neilltuir mentor i bob ymgeisydd CfW+ a fydd yn eu cynorthwyo i ddod o hyd i rôl a phob elfen o'r broses ymgeisio, gan gynnwys helpu gyda CVs, ffurflenni cais, paratoi ar gyfer cyfweliad a llawer iawn mwy.

Yn ogystal, bydd mentoriaid CfW+ yn gweithio ar sgiliau meddalach fel hyder/hunan-barch, sut mae unigolyn yn cyflwyno ei hun i ddarpar gyflogwyr, meithrin gwydnwch a mwy.

Mae timau CfW+ yn cyflogi Swyddogion Cyswllt Cyflogwyr sy'n adolygu swyddi gwag lleol er mwyn cynorthwyo i baru ymgeiswyr â swyddi.

Gall y swyddogion hyn hefyd negodi dulliau recriwtio ar raddfa fwy pan fydd angen i gyflogwyr lenwi nifer o rolau. Byddant hefyd yn hwyluso timau lleol sy'n cynnal ymarferion recriwtio lle caiff grŵp o ymgeiswyr eu mentora, gan gynnig hyfforddiant defnyddiol mewn gwasanaeth cwsmeriaid iddynt cyn i'r garfan gael cyfweliadau gwarantedig gyda chyflogwr.

**Cymunedau am Waith a Mwy | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)**



# Rhaglen Sgiliau Hyblyg

Mae'r Rhaglen Sgiliau Hyblyg yn targedu'r busnesau hynny sy'n ystyried cyfleoedd busnes newydd, technoleg newydd, cynllun ehangu a/neu dwf. Mae'r rhaglen yn darparu cymorth ariannol tuag at uwchsgilio staff.

**Ar hyn o bryd mae rhaglenni penodol i helpu busnesau i:**

- Ddatblygu sgiliau digidol uwch
- Mynd i'r afael â heriau sgiliau sy'n gysylltiedig ag allforio
- Cefnogi bylchau sgiliau yn y Sector Peirianneg a Gweithgynhyrchu
- Cefnogi bylchau sgiliau ac uwchsgilio yn y Sector Creadigol
- Cefnogi datblygiad sgiliau i helpu i fynd i'r afael â heriau Sero Net
- Cefnogi bylchau sgiliau ac uwchsgilio yn y Sector Twristiaeth a Lletygarwch.

**Ar gyfer 2025-26 bydd y Rhaglen Sgiliau Hyblyg hefyd yn helpu i gyllido:**

- Cymorth ar ffurf ymgynghori at ddiben pennu marchnadoedd gwyrdd newydd/modelau busnes newydd er mwyn pennu bylchau o ran sgiliau ac anghenion at ddiben trawsnewid/ehangu
- Hyfforddiant mewn Arweinyddiaeth a Rheolaeth.

**Mae cymhwysedd busnes presennol yn cynnwys:**

- Rhaid i'r busnes fod wedi'i leoli yng Nghymru, yn ddiddyled, a rhaid i chi ymrwymo i ryddhau staff i gyflawni'r hyfforddiant dan sylw erbyn diwedd y flwyddyn ariannol
- Rhaid i'r hyfforddiant ddatblygu dysgu'r unigolion sy'n ymwneud ag o leiaf un o'r meysydd a restrir uchod
- Rhaid i bob elfen o'r hyfforddiant wella gallu neu gapasiti'r busnes.

Mae'r cyllid yn ddewisol a Llywodraeth Cymru sydd â'r gair olaf ar gymhwysedd.

**Rhaglen Sgiliau Hyblyg | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)**



Astudiaeth achos

# Ymddiriedolaeth y Brenin – Rhaglen 'Get into Retail'

Mae'r rhaglen 'Get into Retail' wedi'i chynllunio i gefnogi pobl ifanc rhwng 16 a 30 oed gyda'r sgiliau a'r profiad sydd eu hangen arnynt ar gyfer gwaith.

Wedi'i sefydlu gan Ymddiriedolaeth y Brenin, mae'r rhaglen yn cynnwys lleoliad gwaith 3-12 wythnos gyda siopau partner manwerthu lleol, gan gynnig cyfleoedd cyflogaeth i bobl ifanc sy'n dymuno gweithio yn y sector manwerthu. Mae Ymddiriedolaeth y Brenin yn angerddol ac yn ymroddedig i sicrhau bod gweithio ym maes manwerthu yn hygyrch i bawb.

Meddai Rhian Mathias, Pennaeth Cyflenwi Ymddiriedolaeth y Brenin yng Nghymru:

> “*Rydym yn hynod falch o'r Rhaglen 'Get into Retail' gydag Ymddiriedolaeth y Brenin oherwydd bod pobl ifanc yn cael eu grymuso i ddatgloi eu potensial, ennill sgiliau gwerthfawr a darganfod gyrfaoedd ystyrlon.*
>
> *Mae gweld pobl ifanc yn ffynnu ac yn goresgyn heriau i adeiladu eu dyfodol yn ein hysbrydoli ni i gyd i gredu mewn cyfle a chefnogaeth.*”

# Straeon llwyddiant pobl ifanc

Mae’r person ifanc yma yn siarad am ei brofiad o’r rhaglen.

> “*Mae'r rhaglen 'Get into Retai' yn cynnig cyfle i bobl o bob gallu gael profiad gwaith mewn amgylchedd manwerthu i ychwanegu at eu CV gyda'r potensial o gael gwaith llawn amser unwaith y daw'r lleoliad i ben.*
>
> *Mae gen i barlys yr ymennydd ac roedd hi'n anodd iawn imi gael cyflogwyr i weld fy mhotensial wrth ymgeisio am swyddi. Cefais fy nerbyn ar y cwrs a chael lleoliad gwaith yn Marks & Spencer lle'r oedd pawb yn groesawgar iawn, ac roeddwn yn teimlo fy mod yn cael fy nerbyn o fewn y tîm. Bellach mae gen i'r profiad i ddilyn gyrfa mewn manwerthu diolch i'r rhaglen hon a'r lleoliad gwaith.*
>
> *Roeddwn i'n teimlo fy mod i'n cael fy nghefnogi drwy gydol y broses, ac fe wnaethant hyd yn oed deithio gyda mi ar drafnidiaeth gyhoeddus am ychydig ddyddiau cyntaf y lleoliad gwaith i sicrhau fy mod yn gyfforddus gyda'r llwybr wrth fynd yn ôl ac ymlaen i'r gwaith.*
>
> *Byddwn yn argymell i unrhyw un sy'n ystyried gyrfa ym maes manwerthu wneud cais am y rhaglen.*”

Ymddiriedolaeth y Brenin – Rhaglen 'Get into Retail'



Astudiaeth achos

# Taith gyrfa Hayley yn IKEA Caerdydd

Dechreuodd Hayley James, Rheolwr Gweithgareddau Masnachol IKEA Caerdydd, ei gyrfa yn IKEA yn 17 oed ac 17 mlynedd yn ddiweddarach ac mae hi dal yno ac yn dweud nad oes dau ddiwrnod yr un fath.

Mae'r llwybr hyfforddi a datblygu yn IKEA wedi galluogi Hayley i gwblhau cyrsiau coleg NVQ, datblygu ei sgiliau arwain drwy raglen hyfforddi 2 flynedd fewnol a rhoi cynnig ar sawl rôl wahanol drwy gyfleoedd cydnabyddiaeth a secondiadau.

Yn 25 oed, Hayley oedd y person ieuengaf i gael ei phenodi i rôl reoli yn siop Caerdydd ac mae'n dweud bod ei hymroddiad a'i dilyniant yn deillio o'r bobl o'i chwmpas a'r llwybr gyrfa sydd ar gael yn IKEA.

**Dywedodd Hayley:**

“*Rhaglen hyfforddi a datblygu IKEA yw'r prif reswm pam rwy wedi gallu datblygu fy ngyrfa mewn lleoliad manwerthu. Mae cymaint o gyfleoedd i ddysgu a rhoi cynnig ar bethau newydd, yn ogystal â chael fy amgylchynu gan arweinwyr ysbrydoledig.*

*Mae cymuned IKEA Caerdydd wedi ei gwneud yn weithle pleserus, sy'n egluro pam imi fod yn gweithio yno gyhyd, ac mae'r sefydliad yn deall pwysigrwydd cael cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith, a lles personol.*”



Astudiaeth achos

# Rhaglen Interniaeth â Chymorth Asda

Mae Asda UK yn cynnal rhaglen interniaeth mewn partneriaeth â'r elusen genedlaethol DFN Project SEARCH a cholegau lleol ar gyfer pobl ifanc ag anableddau dysgu ac anawsterau dysgu. Mae'r rhaglen yn caniatáu mynediad at ddysgu llawn amser yn seiliedig ar astudio mewn siopau Asda a mynediad at ddysgu drwy brofiad yn y gwaith bob dydd yn ogystal â chwricwlwm cyflogadwyedd penodol.

Fe wnaeth y fenter alluogi Asda yn Queensferry, Sir y Fflint i recriwtio ei gweithwyr parhaol cyntaf o'i rhaglen interniaeth â chymorth mewn partneriaeth â'r elusen DFN Project SEARCH a Choleg Cambria lleol yng Ngwynedd.

Yn flaenorol, roedd un o'r cydweithwyr hyn wedi bod yn ddysgwr llawn amser yng Ngholeg Cambria lle treuliodd amser yn datblygu ei sgiliau ar gyfer cyflogaeth ac yn rhoi cynnig ar ychydig o leoliadau gwahanol.

Cyflwynwyd Cai i Raglen Interniaeth â Chymorth Asda gan ei fentor yn y coleg ac ymunodd â'r cwrs yn siop Asda yn Queensferry yn ystod cyfnod prysur y Nadolig. Fe setlodd yn y siop yn sydyn, a gweithiodd ar ei annibyniaeth trwy ymgymryd â heriau gwahanol a rhoi cynnig ar weithio mewn sawl adran yn y siop i ddysgu cymaint o sgiliau newydd ag y gallai cyn penderfynu ar ei rôl ef.




Trolïau oedd ei hoff adran, a bu'n gweithio gyda'r tîm i ddysgu diogelwch rheoli'r maes parcio fel blaenoriaeth. Blodeuodd Cai yn gyflym ac roedd yn cwblhau pob tasg yn annibynnol ac yn mynychu gwaith gydag agwedd gadarnhaol a gwên ar ei wyneb.

Ar ôl sawl wythnos, cynigiwyd cyflogaeth ran-amser i Cai fel Cydweithiwr Gwasanaeth ar y Trolïau yn Asda yn Queensferry.

**Meddai Cai**,

> *Rydw i mor hapus i gael y cyfle hwn i gael gwaith rhan-amser, ennill fy arian fy hun a chwrdd â ffrindiau newydd. Rwyf wedi dysgu cymaint ac wedi magu hyder ac annibyniaeth fel fy mod bellach yn defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus am y tro cyntaf erioed. Byddwn yn annog pawb i edrych ar y rhaglen gan y gallai agor drysau ar gyfer cyflogaeth yn y dyfodol.*

Nod DFN Project SEARCH yw cefnogi 10,000 o oedolion ifanc ag anabledd dysgu, neu gyflwr ar y sbectrwm awtistiaeth (neu'r ddau) i gael gwaith cyflogedig erbyn 2030. Mae wedi helpu mwy na 2,000 o bobl hyd yma.

# Twf Swyddi Cymru+

Mae Twf Swyddi Cymru+ yn rhan allweddol o Warant Pobl Ifanc Llywodraeth Cymru, gan ddarparu pecyn cymorth pwrpasol i helpu pobl ifanc 16-19 oed i ddatblygu eu sgiliau a'u profiad gwaith yn unol ag anghenion cyflogwyr fel y gallant gael eu swydd gyntaf.

I gyflogwyr, mae'r rhaglen yn cynnig cymorthdaliadau cyflog a chymorth wedi'i deilwra i helpu i dyfu eu gweithlu. Yn gyfnewid am hyn, gall cyflogwr helpu i greu cyfleoedd cyflogaeth, sesiynau blasu gwaith, neu leoliadau profiad gwaith i bobl ifanc.

**Gall cyflogwyr ddisgwyl:**

Hyd at 50% o gostau cyflogaeth pob person ifanc ar yr Isafswm Cyflog Cenedlaethol am y chwe mis cyntaf

Cyngor recriwtio am ddim gan gontractwr dynodedig, yn ogystal â chymorth hyfforddiant parhaus ganddynt, i sicrhau bod y gweithiwr ifanc yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf ac yn parhau i ddatblygu ei sgiliau

Cyfle i ddylunio lleoliad blasu neu brofiad gwaith gyda'r potensial i hyn droi yn gyfle gwaith drwy raglen Twf Swyddi Cymru+.

Mae Twf Swyddi Cymru+ ar gael i fusnesau o unrhyw faint mewn unrhyw ddiwydiant yng Nghymru.

Mae'n rhaid i gynigion swydd fod am 16-40 awr yr wythnos, ac am o leiaf chwe mis. Rhaid i unrhyw swyddi a grëir fod yn ychwanegol at anghenion presennol y gweithlu, a dylai cyflogwyr fod yn ymrwymedig i gadw'r gweithiwr y tu hwnt i'r cyfnod o chwe mis.

**Twf Swyddi Cymru+ | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)**



# Cyfrifon Dysgu Personol

Nod y rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol yw rhoi cymorth i unigolion ledled Cymru er mwyn iddynt ddysgu sgiliau lefel uwch a fydd yn eu galluogi i fanteisio ar amrywiaeth ehangach o gyfleoedd gwaith a/neu gael cyflogaeth ar lefel uwch.

Prif nod y rhaglen Cyfrif Dysgu Personol yw galluogi pobl i uwchsgilio ac ailsgilio mewn sectorau â blaenoriaeth, i wella eu potensial o ran gyrfa ac enillion, a helpu i godi'r incwm canolrifol yng Nghymru.

Bydd y cynllun yn parhau i ganolbwyntio ar y rhai sy'n ennill llai na £32,371 y flwyddyn ar hyn o bryd ac ar gymwysterau sydd â hanes profedig o wella enillion.

Mae'r Rhaglen Cyfrifon Dysgu Personol wedi'i chynllunio i fod yn ddarpariaeth addasadwy ac ymatebol i gwrdd â bylchau sgiliau trwy gyflwyno rhaglen ddysgu hyblyg trwy gyrsiau sy'n gysylltiedig â gyrwyr allweddol yn y sector ac, ar yr un pryd, yn cynnig dewisiadau dysgu hygyrch i alluogi cyfranogwyr i benderfynu ar sut a phryd y maent yn astudio.

Mae'r rhestr o gymwysterau Cyfrifon Dysgu Personol cymeradwy ar gael trwy Gyrfa Cymru **Chwilio Cwrs (llyw.cymru)**.

Mae rhai o'r cymwysterau hyn yn berthnasol i'r sector manwerthu. Gall y ddarpariaeth amrywio yn dibynnu ar yr hyn sydd ar gael gan y Sefydliadau Addysg Bellach.

**Cyfrifon Dysgu Personol**



# ReAct+


Gall y rhaglen ReAct+ helpu pobl sydd wedi colli eu swyddi gaffael y sgiliau y mae cyflogwyr sy'n recriwtio yn chwilio amdanynt. Mae'r rhaglen wedi'i seilio ar wybodaeth gadarn am y farchnad lafur ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol. Gall y rhaglen hefyd gynorthwyo cyn-droseddwyr a throseddwyr sy'n cwblhau eu dedfrydau drwy wneud gwaith cymunedol.

Mae grant cymorth i gyflogwyr ReAct+ ar gael i gyflogwyr yn y sector preifat a'r trydydd sector mewn unrhyw sector sy'n recriwtio person anabl. Mae'n cyfrannu at gyflog y gweithiwr sydd newydd ei recriwtio am y 12 mis cyntaf.

**Mae'r rhaglen hefyd yn cynnig y canlynol i unigolion:**

- Grant hyfforddiant galwedigaethol
- Grant gofal/gofal plant
- Cymorth tuag at gostau sy'n gysylltiedig â hyfforddiant gan gynnwys teithio a llety.

**ReAct+ | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)**



# Porth Recriwtio a Hyfforddi / Sgiliau

**Mae'r tudalennau Recriwtio a Hyfforddi ar wefan y Porth Sgiliau yn darparu llawer o wybodaeth ddefnyddiol i gyflogwyr sydd eisiau darganfod mwy am:**

- Ddigwyddiadau sgiliau a hyfforddiant
- Cyhoeddiadau diweddaraf ar gyflogadwyedd a sgiliau
- Cefnogaeth yn eich ardal chi
- Canllawiau ac awgrymiadau i helpu i adolygu'r ffordd rydych chi'n recriwtio, rheoli a datblygu eich staff.

**Croeso i Recriwtio a Hyfforddi – i gael gwybodaeth a chyngor ar gymorth recriwtio a hyfforddiant | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)**



# Gwarant i Bobl Ifanc

Y Warant i Bobl Ifanc yw ymrwymiad allweddol Llywodraeth Cymru i ddarparu cymorth i bawb rhwng 16 a 24 oed sy'n byw yng Nghymru i gael lle mewn addysg neu hyfforddiant, neu eu helpu i gael gwaith neu fod yn hunangyflogedig.

**Mae'r rhaglenni o dan y Warant hefyd yn darparu nifer o fecanweithiau cymorth i gyflogwyr gan gynnwys:**

- mynediad uniongyrchol i bobl ifanc
- cyllid sy'n gysylltiedig â hyfforddiant
- cymhellion recriwtio
- hysbysebu swyddi gwag/prentisiaethau
- cyngor arbenigol
- cymorth iechyd a lles yn y gwaith i staff.

**Gwarant i Bobl Ifanc | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)**



## Rhaglenni'r Undeb

# Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF)

Mae Cronfa Ddysgu Undeb Cymru (WULF) yn cael ei darparu gan Lywodraeth Cymru i helpu i gefnogi dysgu i oedolion o dan arweiniad undebau yn y gweithle.

Mae gan bob gweithiwr yng Nghymru y cyfle i gael mynediad i'r gronfa i fanteisio ar y cymorth, y cyngor a'r arweiniad a'r cynigion hyfforddi a ddarperir drwy brosiectau WULF. Ar hyn o bryd mae gan y rhaglen 18 o brosiectau gweithredol sy'n cyflawni ledled Cymru ac yn y rhan fwyaf o sectorau diwydiant.

Mae unrhyw undebau llafur ardystiedig sydd ag aelodau yng Nghymru, boed yn aelod o Gyngres yr Undebau Llafur ai peidio, yn gymwys i wneud cais am gyllid WULF.

Prif ffocws Cronfa Ddysgu Undebau Cymru yw galluogi undebau llafur i ddatblygu sgiliau hanfodol a chyflogadwyedd y gweithlu, gyda phwyslais penodol ar ddileu rhwystrau i'r rhai nad ydynt yn ddysgwyr yn draddodiadol.

**Cronfa Ddysgu Undebau Cymru (WULF) | Porth Sgiliau Busnes Cymru (llyw.cymru)**



OGL © Hawlfraint y Goron 2025, Llywodraeth Cymru, WG49911, ISBN digidol 978-1-83715-470-8
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau ffôn yn Gymraeg